Pennod Pedwar

Hawliau sifil a rhyddid

Cosbi corfforol

Jill Taylor – 'Sdim Curo Plant!/Children are Unbeatable!

Hawliau sifil a rhyddid

Cosbi corfforol

SYLW TERFYNOL para.36. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r parti Gwladwriaeth:

a) Mabwysiadu deddfwriaeth ar frys ledled y parti Gwladwriaeth i ddileu'r amddiffyniad o "gosbedigaeth resymol" a gwahardd pob cosbi corfforol yn y teulu ac mewn unrhyw gyd-destun arall sydd heb ei gynnwys yn y ddeddfwriaeth bresennol;
b) Hyrwyddo mathau cadarnhaol, cyfranogol a di-drais o ddisgyblu a pharch at hawl gydradd y plentyn i urddas fel bod dynol a dihalogrwydd ei gorff, gan ymwneud â phlant a rhieni a phawb sy'n gweithio gyda hwy ac ar eu rhan, a rhedeg rhaglenni addysg gyhoeddus ar y canlyniadau negyddol i gosbi corfforol.

Erthyglau perthnasol yn CCUHP: Mae Erthygl 19 yn uniongyrchol berthnasol.

Sylwadau ar y cynnydd

a) Mabwysiadu deddfwriaeth ar frys ledled y parti Gwladwriaeth i ddileu'r amddiffyniad o 'gosbedigaeth resymol' a gwahardd pob cosbi corfforol yn y teulu ac mewn unrhyw gyd-destun arall sydd heb ei gynnwys yn y ddeddfwriaeth bresennol.

Deddfwriaeth

Senedd y DU yn San Steffan sydd â'r pŵer i ddiddymu'r amddiffyniad o 'gosbedigaeth resymol' ac nid Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mewn meysydd lle y mae pŵer gan y Cynulliad, mae wedi dangos ei ymrwymiad cadarn i roi terfyn ar gosbi corfforol ar blant: er enghraifft, ef oedd y weinyddiaeth gyntaf yn y DU i wahardd cosbi corfforol mewn lleoliadau gwarchod plant a gofal dydd.[1]

Er clod i Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn Hydref 2002 (mewn ymateb i Sylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig) cyhoeddodd Ddatganiad ar ran y Cabinet yn nodi ei bod yn benderfynol o gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU o blaid newid y gyfraith er mwyn dileu'r amddiffyniad o gosbedigaeth resymol:

"Yn y sylwadau diweddar gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, daethpwyd i'r casgliad nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn y DU yn cydymffurfio ag egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig. Argymhellodd y dylid gwahardd cosbi corfforol mewn teuluoedd ac ym mhob cyd-destun arall o dan y gyfraith, a daeth i'r casgliad y dylid cymryd camau i hyrwyddo dulliau disgyblu di-drais, parch at hawliau'r plentyn i urddas fel bod dynol, gan gynnwys drwy raglenni addysg cyhoeddus. Byddaf yn ysgrifennu at John Denham yn mynegi cefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r farn honno." [2]

Gwrthododd Llywodraeth y DU ailystyried y ddadl dros ddiwygio'r gyfraith. Wedyn, yn 2004, cafwyd ymgyrch gryf a blaengar a oedd wedi'i chyd-drefnu gan Gynghrair 'Sdim Curo Plant!, dros ychwanegu cymal newydd at y Mesur Plant. Byddai'r cymal hwn yn dileu'r amddiffyniad o dan gyfraith gyffredin o 'gosbedigaeth resymol' ac yn rhoi 'amddiffyniad cyfartal' i blant. Gwrthododd Llywodraeth y DU y cyfle hwn i ddeddfu ar y mater o'r cychwyn gan ddadlau'n gyson yn erbyn yr ymgyrch, gan roi pwyslais ar hawl rhieni i ddisgyblu eu plant a chodi'r bwgan o wneud troseddwyr o rieni a'u dwyn gerbron y llysoedd.

Yn y bleidlais derfynol yn Nhŷ'r Cyffredin ar 2 Tachwedd 2004 gwrthododd y Llywodraeth roi 'pleidlais rydd' i'w Haelodau Seneddol ei hun, h.y. fel y gallent bleidleisio yn ôl eu cydwybod, sef yr hyn sy'n draddodiadol yn y DU yn achos materion o'r fath. Trechwyd y cymal newydd a oedd wedi'i gynnig (Cymal 12) o 423 o bleidleisiau i 75. Yn lle hynny, rhoddodd y Llywodraeth gefnogaeth i gymal arall (Cymal 56), a bortreadwyd fel cyfaddawd ond a oedd mewn gwirionedd yn cymeradwyo cosbi plant yn gorfforol ac yn cyflwyno amddiffyniad statudol newydd o 'gosb resymol'. Cafwyd gwrthwynebiad taer i Gymal 56 o du'r ymgyrch ond fe'i cymeradwywyd o 284 o bleidleisiau i 208. Fe'i gwnaed yn Adran 58 o Ddeddf Plant 2004 a daeth i rym yng Nghymru a Lloegr ar 15 Ionawr 2005.

Dywedodd Syr William Utting, llefarydd dros Gynghrair 'Sdim Curo Plant!:

"Mae Adran 58 o'r Ddeddf Plant yn parhau â'r amddiffyniad hynafol sy'n caniatáu taro a brifo plant yn gyfreithlon. Mae'n anghyfiawn ac nid yw'n cyflawni ein rhwymedigaethau ynghylch hawliau dynol i blant o dan gytundebau'r Cenhedloedd Unedig a rhai Ewropeaidd." [3]

Yn y ddadl derfynol ar y Mesur Plant, ymgymerodd y Gweinidog dros Blant yn Llywodraeth y DU i adolygu gweithrediad Adran 58 ar ôl 2 flynedd.

Cafwyd cyfraniadau nodedig gan Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi ac Aelodau Seneddol o Gymru i'r ymgyrch yn 2004 ac o'u plith hwy y cafwyd prif noddwr y cymal 'amddiffyniad cyfartal' yn Nhŷ'r Arglwyddi (Y Farwnes Finlay)[4] a dau o'r pedwar o noddwyr yn Nhŷ'r Cyffredin (Julie Morgan a Hywel Williams)[5]. Siaradodd chwe Seneddwr arall o Gymru o blaid y cymal 'amddiffyniad cyfartal' a phleidleisiodd mwy na chwarter y 40 o ASau yng Nghymru o'i blaid.[6]

Er nad oedd yr ymgyrch dros newid y gyfraith wedi llwyddo, ceir cydnabyddiaeth yn gyffredinol ei bod wedi hybu ymwybyddiaeth o bwnc cosbi corfforol ac wedi arwain at rai dadleuon a sylw yn y cyfryngau o safon dda. Bu hyn o gymorth i droi'r consensws yn bellach o blaid diwygio. Roedd nifer o asiantaethau allweddol, a Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) yn neilltuol, wedi cyhoeddi eu gwrthwynebiad i Adran 58 a'u cred na fyddai 'amddiffyniad cyfartal' yn arwain at droi rhieni'n droseddwyr.

Mewn cyferbyniad â Llywodraeth y DU, yn Hydref 2002, Llywodraeth Cynulliad Cymru, gyda chefnogaeth drawsbleidiol gan fwyafrif o'r 60 o Aelodau yn y Cynulliad Cenedlaethol, oedd y llywodraeth gyntaf yn y DU i sefyll ar sail egwyddor yn erbyn cosbi plant yn gorfforol.[7] Ers hynny, mae wedi pwyso'n gyson ar Lywodraeth y DU i gymryd camau i ddileu'r amddiffyniad o 'gosbedigaeth resymol'. Yn Ionawr 2004, yn ystod dadl ar y Papur Gwyrdd ar Blant, pleidleisiodd dros ddwy ran o dair o Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gyfleu gofid bod Llywodraeth y DU wedi methu â chymryd camau:

"Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gresynu at y ffaith bod Llywodraeth y DU yn dal i gadw'r amddiffyniad o gosbedigaeth resymol ac nad yw wedi cymryd unrhyw gamau o bwys tuag at atal cosbi plant yn gorfforol yn y teulu" (O blaid 41, Ymatal 3, Yn erbyn 9)[8]

Ym mis Mai 2004 yn ystod dadl ar y Mesur Plant yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, dywedodd y Gweinidog:

"…Rwyf yn falch bod Aelodau ... wedi codi mater y cyfle yr ydym yn gobeithio y bydd y ddeddfwriaeth hon sydd i ddod yn ei gynnig i'r Llywodraeth wneud safiad, fel y gwnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, o blaid hawliau plant drwy ddileu'r amddiffyniad o gosbedigaeth resymol.... Nid yw hyn yn ymwneud â throi rhieni'n droseddwyr; mae'n ymwneud â sicrhau bod gan blant yr un hawliau ag oedolion mewn cysylltiad â chosbi corfforol a sicrhau yr achubir ar y cyfle hwn. Yr wyf yn gobeithio y bydd y Llywodraeth yn cefnogi gwelliant i'r Mesur ac y bydd pleidlais rydd i fynd ymlaen â hyn." [9]

b) Hyrwyddo mathau cadarnhaol, cyfranogol a di-drais o ddisgyblu a pharch at hawl gydradd y plentyn i urddas fel bod dynol a dihalogrwydd ei gorff, gan ymwneud â phlant a rhieni a phawb sy'n gweithio gyda hwy ac ar eu rhan, a rhedeg rhaglenni addysg gyhoeddus ar y canlyniadau negyddol i gosbi corfforol.

Mynegwyd gwrthwynebiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gosbi corfforol yng nghyd-destun estyn cymorth i rieni yn ogystal â hawl y plentyn i gael ei amddiffyn. Yn Natganiad y Cabinet yn Hydref 2002 dywedodd y Gweinidog:

"Beth bynnag yw'r sefyllfa gyfreithiol, credaf fod rhaid seilio ein dull o weithredu ar gefnogaeth i rianta cadarnhaol. Y peth allweddol yw cynorthwyo rheini ac eraill sy'n gofalu am blant a hyrwyddo cydberthynasau cadarnhaol mewn teuluoedd. Rhaid inni geisio newid agweddau meddwl cymdeithas fel nad yw cosbi plant yn gorfforol yn cael ei ystyried yn dderbyniol bellach, ni waeth ym mha gyd-destun y mae'n digwydd" [10]

Ers Ionawr 2004 mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu cyllid i 'Sdim Curo Plant!/Children are Unbeatable! yng Nghymru[11] i gael cyngor a chyfarwyddyd ganddo ar y camau y gellir eu cymryd gan ddefnyddio'r pwerau sydd gan y Cynulliad, yn bennaf ym meysydd iechyd, amddiffyn plant, camdriniaeth yn y cartref, cymorth i rianta ac adfywio cymunedol.

Hyd yma, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi pedair dogfen allweddol[12], sy'n datgan ei hymrwymiad yn glir:

PLANT A PHOBL IFANC: HAWLIAU AR WAITH (CHWEFROR 2004)
"Mae Llywodraeth y Cynulliad yn credu y dylid rhoi terfyn ar yr amddiffyniad cyfreithiol presennol o 'gosbedigaeth resymol'. Dymunwn hyrwyddo parch at hawliau plant i urddas fel pobl a dulliau disgyblu di-drais, gan wneud hynny drwy raglenni addysg gyhoeddus a dulliau eraill. Rydym wedi cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ar hyn.

Nid ydym yn credu bod taro plant yn fodd i'w dysgu sut i ymddwyn wrth iddynt dyfu. Mae plant sy'n cael eu taro'n fwy tebygol o gredu bod y rhai cryfaf yn cael eu ffordd a bod trais yn fodd derbyniol i fynegi barn neu ddelio â dicter neu rwystredigaeth.

Credwn fod rhaid inni barchu'r hyn y mae'r plant eu hunain wedi dweud wrthym: bod taro plant yn creu drwgdybiaeth, ofn ac atgasedd, ac nad hynny yw'r ffordd orau i feithrin parch at oedolyn neu barodrwydd i dderbyn ei werthoedd.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gwahardd taro plant ym mhob math o ofal cyhoeddus a gofal sydd wedi'i reoleiddio yng Nghymru. Rydym am sicrhau y bydd rhieni a gofalwyr yn cael yr wybodaeth a'r cyngor y mae arnynt eu hangen ynghylch dulliau effeithiol o ddelio ag ymddygiad plant, gan gynnwys dewisiadau yn lle disgyblu corfforol. Rydym yn ariannu rhaglen addysg gyhoeddus ac yn cynhyrchu taflenni gwybodaeth ac yn darparu cyngor fel rhan o hynny."

FFRAMWAITH GWASANAETH CENEDLAETHOL AR GYFER PLANT, POBL IFANC A GWASANAETHAU MAMOLAETH (MEDI 2005)
"Bydd Cynlluniau Partneriaethau'r Fframwaith Plant a Phobl Ifanc yn cynnwys trefniadau i weithio ar y cyd i hyrwyddo a chynnig addysg ar rianta sy'n cynnwys: ...Awgrymu dulliau priodol o reoli ymddygiad plant sy'n ategu barn Llywodraeth Cynulliad Cymru bod cosbi plant yn gorfforol yn annerbyniol"

CYNLLUN GWEITHREDU RHIANTA (MAWRTH 2005, CYHOEDDWYD AR GYFER YMGYNGHORI)
"Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn nad yw taro plentyn yn dderbyniol. Nid yw taro plentyn yn annog oedolion, plant a phobl ifanc i barchu ei gilydd. Rydym yn credu bod ffyrdd gwell o ddelio ag ymddygiad anodd a dysgu'r gwahaniaeth i blant rhwng yr hyn sy'n gywir a'r hyn sy'n anghywir. Rydym yn gwybod y byddai nifer o rieni yn gwerthfawrogi cyngor ar sut i ddelio â hyn. Credwn y dylai un o'r llyfrynnau a roddir i rieni drafod sut i fagu plant heb ddefnyddio cosbau corfforol."

Bydd y Cynllun Gweithredu Rhianta terfynol yn cael ei gyhoeddi yn hydref 2005 ac mae'n debyg y bydd y llyfryn am ddewisiadau yn lle taro plant yn cael ei ddosbarthu o 2006 ymlaen drwy'r gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd sydd ar gael i bawb.

MYND I'R AFAEL Â CHAM-DRIN YN Y CARTREF: STRATEGAETH GENEDLAETHOL CYMRU GYFAN (MAWRTH 2005)
"Amcan y strategaeth hon yw hyrwyddo diogelwch menywod a phlant/pobl ifanc drwy gydnabod yr angen i: ...Hybu polisïau sydd yn erbyn taro plant a cheisio hyrwyddo dewisiadau yn lle disgyblu corfforol."

Cymru yw'r unig ran o'r DU lle y derbynnir bod cosbi corfforol ar blant yn rhan o'r sbectrwm o gamdriniaeth yn y cartref.

Yn Ionawr 2004 aeth grwp o Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol o Gymru ar ymweliad ymchwiliol swyddogol i Sweden a oedd wedi'i drefnu gan 'Sdim Curo Plant!/Children are Unbeatable! a Radda Barnen (Achub y Plant, Sweden). Cafwyd ei fod yn ymweliad buddiol iawn o ran hysbysu gwleidyddion am y modd y gellir cyflwyno newidiadau i'r gyfraith ac ymgymryd ag addysg gyhoeddus.

Mae 'Sdim Curo Plant!/Children are Unbeatable! yn cwrdd yn rheolaidd â'r Gweinidog dros Blant ac mae Is-bwyllgor Cabinet Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Blant a Phobl Ifanc yn bwriadu adolygu'r cynnydd a wnaed yn Hydref 2005. Mae'r Gynghrair yn dal i bwyso dros gael ymgyrch addysg gyhoeddus sydd wedi'i hariannu'n briodol ar y cyd â lefel uwch o gymorth i rieni.

Mae 'Sdim Curo Plant!/Children are Unbeatable! wedi cwrdd hefyd â gweision sifil mewn gwahanol adrannau o Lywodraeth Cynulliad Cymru i drafod dulliau o roi syniadau ar waith drwy gynllunio camau gweithredu a'u cymryd ar lefel leol. Mae 'Sdim Curo Plant!/Children are Unbeatable! yn gweithio ar hyn o bryd ar ddatblygu cynlluniau ymwybyddiaeth gyhoeddus ar lefel gymunedol ar y cyd â chyrff anllywodraethol, awdurdodau lleol ac asiantaethau iechyd er mwyn dangos yr hyn y gellir ei gyflawni. Bydd modd i eraill gopïo neu addasu'r rhain wedyn. Rydym wedi gwneud cais am gyllid i werthuso'r cynlluniau hyn fel y gallwn ddangos beth sy'n fwyaf effeithiol ar gyfer newid agweddau meddwl y cyhoedd ac ymddygiad rhieni er budd plant a phobl ifanc yng Nghymru. Bydd yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei chyflwyno i'r adolygiad o Adran 58 o *Ddeddf Plant 2004* yn hydref 2006.

Casgliad

Cydnabyddir bod Cymru'n arwain y ffordd ar fater cosbi corfforol yn y DU. Fodd bynnag, mae'r negeseuon anghyson a geir gan y ddwy Lywodraeth (y DU a'r Cynulliad Cenedlaethol) yn peri dryswch i rieni, y cyhoedd a phobl ifanc. Er bod ymrwymiad gwleidyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ddiffuant, nid oes digon o adnoddau i ariannu addysg gyhoeddus a lefel ddigonol o gymorth i rieni ac mae hyn, ynghyd â'r cyfiawnhad cyfreithiol sy'n dal i fod dros daro plant, yn rhwystr mawr i gynnydd pellach.

Prif argymhellion

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

- Parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i ddiwygio'r gyfraith er mwyn rhoi amddiffyniad cyfartal i blant.

- Cychwyn ymgyrch addysg gyhoeddus a hefyd cynnig lefel uwch o gymorth i rieni.

Ôl-nodiadau

[1] Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002.

[2] Jane Hutt, Y Gweinidog dros Blant (Cofnod Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer 23 Hydref 2002).

[3] Datganiad i'r wasg gan Gynghrair 'Sdim Curo Plant! (Tachwedd 2004) *Unjust law fails children* yn www.childrenareunbeatable.org.uk

[4] Hansard, 30 Mawrth, 20 Mai, 5 Gorffennaf 2004.

[5] Hansard, 13 Medi 2004.

[6] Hansard, 2 Tachwedd 2004.

[7] Jane Hutt, Y Gweinidog dros Blant (Cofnod Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer 23 Hydref 2002).

[8] Cofnod Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer 14 Ionawr 2004.

[9] Jane Hutt, Y Gweinidog dros Blant (Cofnod Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer 4 Mai 2004).

[10] Cofnod Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer 23 Hydref 2002.

[11] Sefydlwyd 'Sdim Curo Plant!/Children are Unbeatable! ym mis Medi 2000. Mae'n gweithio ar y cyd â grwpiau cyfatebol yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Mae ei waith yn cael ei gyfarwyddo gan Grwp Strategaeth sy'n cynnwys Barnardos Cymru, Swyddfa'r Comisiynydd Plant, Plant yng Nghymru, Cymdeithas Tai Hafan, NCH Cymru, Cymdeithas Genedlaethol Gwarchodwyr Plant Cymru, Sefydliad Cenedlaethol Rhianta a Theuluoedd, NSPCC Cymru, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, Achub y Plant.

[12] Gellir llwytho'r holl ddogfennau hyn i lawr o wefan y Cynulliad Cenedlaethol: www.cymru.gov.uk